

AMODAU A GRADDFEYDD FFIOEDD ar gyfer atgynhyrchu deunydd archifol, ac ar gyfer ffilmio mewn archifdai ac eiddo arall y Gwasanaeth Archifau.

1. Gellir cyflenwi atgynhyrchiadau o ddeunydd yng ngofal Gwasanaeth Archifau Gwynedd am y prisiau a nodir isod (pacio a phostio yn ychwanegol) mewn llawer o achosion. Mae'r Prif Archifydd, fodd bynnag, yn cadw'r hawl i wrthod caniatâd i wneud atgynhyrchiadau heb nodi unrhyw reswm; ac mae rhai adnewwyr wedi nodi'n bendant nad ydynt yn fodlon i gopïau gael eu gwneud, ac mewn achos felly wrth gwrs perchir eu dymuniadau i'r eithaf.
2. HAWLFRRAINT: Nid yw cael caniatâd i atgynhyrchu copi o eitem yn golygu nad oes rhaid cael y caniatâd atgynhyrchu angenrheidiol oddi wrth berchennog unrhyw hawlfraint a all fod ar yr eitem. Ni all Gwasanaeth Archifau Gwynedd roi unrhyw wybodaeth na chynnig barn o gwbl ynglŷn â bodolaeth unrhyw hawlfraint ar unrhyw eitem.
3. Rhaid cydnabod ffynhonnell atgynhyrchiad mewn unrhyw beth a gyhoeddir neu ar unrhyw ffilm neu raglen deledu yr ymddangosir ynddi. Dylid defnyddio'r ffurf 'GWASANAETH ARCHIFAU GWYNEDD' wrth gydnabod y ffynhonnell, oni drefnir yn wahanol. Rhaid i'r gydnabyddiaeth ymddangos (mewn cyhoeddiadau) naill ai yn union wrth ymyl y copi, neu yn yr adran a neilltuwyd ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth, ac yn yr achos hwnnw, rhaid nodi'r eitem(au) y mae'r gydnabyddiaeth yn cyfeirio ato/atynt. Dylid rhoi cydnabyddiaeth mewn rhaglenni teledu a ffilmiau ymysg y 'credits' ac mewn modd digon amlwg.
4. Ni chaiff unrhyw berson wneud copïau o gopïau a gyflenwir gan Wasanaeth Archifau Gwynedd. Ni chyflenwir unrhyw negyddion. Darperir copïau am y pwrpas a nodir wrth wneud y cais amdanynt, ac ni chaniateir eu gosod mewn llyfrgell lluniau neu eu hail-ddefnyddio mewn unrhyw ffordd arall heb ganiatâd.
5. Mae Prif Archifydd y Sir yn cadw'r hawl i amrywio neu ddileu'r ffioedd a godir mewn amgylchiadau arbennig, neu ar gyfer gwaith anfasnachol.
6. Dim ond am yr un tro fel y nodir ar ffurflen GA5 y mae'r caniatâd i atgynhyrchu a'r tâl gwreiddiol yn ddilys. Rhaid gwneud cais arall os am ail-gyhoeddi, ail-argraffu neu ail-ddefnyddio'r platiau argraffu ar gyfer cynllun arall, ac nid yw'r tâl gwreiddiol yn talu am hyn.
7. Rhaid cyflwyno copi braint o bob cyhoeddiad sy'n cynnwys eitemau a atgynhyrchwyd o gasgliad Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn ogystal â'r ffi atgynhyrchu i'r Gwasanaeth Archifau.
8. Diogelir yr hawl i wrthod ceisiadau heb roi rheswm am hynny.
9. Ar gyfer unrhyw amgylchiadau nas crybwyllwyd uchod, dylid gwneud ceisiadau i'r Prif Archifydd, Gwasanaeth Archifau Gwynedd, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Caernarfon. LL55 1SH.

FFIOEDD DIWYGIEDIG

FFOTOGRAFFAU

Copïau o ddeunydd archifol (du a gwyn) *hyd at 11" x 8"* £11.00

Print Digidol £11.00
Cludiant

DEFNYDD O ADNODDAU ARCHIFOL

Atgynhyrchiad o luniau (mewn cyhoeddiad masnachol) £20+T.A.W

Atgynhyrchiad o luniau ar deledu/ffilm (Prydeinig) £70+T.A.W.

Atgynhyrchiad o luniau ar deledu/ffilm (Cymreig) £50+T.A.W.

TÂL FFILMIO

Ffilmio lluniau llonydd ar eiddo'r Adain (mesul awr)/ £30+T.A.W.

Ffilmio rhaglenni dogfennol/drama ar eiddo'r Adain (hanner diwrnod) £90+T.A.W.

Y RHYNGRWD

Atgynhyrchiad o luniau ar y rhyngrwyd/ £40+T.A.W.

FFIOEDD YMCHWIL

Am yr hanner awr cyntaf (i gynnwys post, copïau ac ati)/ £15.00

Am bob awr yn dilyn yr hanner awr cyntaf £20.00

GWAITH CADWRAETH

Diogelu ac atgyweirio, rhwymo, mowntio deunydd ar gyfer £25.00+T.A.W.
ar ddangosfeydd, (codir yn ychwanegol am ddefnyddiau drud). (yr awr)

